Manyleb ar gyfer y 1af o Fedi 2021

Manyleb

Cymhwyster Lefel 2 mewn Arwain Chwaraeon yn y Gymuned (CSL2)

SLO Sports Leaders

Arweinydd Chwaraeon CSL2

Cyflwyniad i'r fanyleb

Ar ôl blwyddyn o addasiadau dros dro i'r manylebau yn 2020/21, mae'r fanyleb wedi cael ei hadolygu er mwyn bod yn fwy perthnasol i'r heriau y mae Arweinwyr Chwaraeon Lefel 2 yn debygol o'u hwynebu. Mae'r cymhwyster hefyd yn cyd-fynd â'r safonau proffesiynol ar gyfer arwain gweithgareddau corfforol a chwaraeon.

Diffinio cymuned	Mae'r diffiniad o gymuned wedi esblygu dros y flwyddyn ddiwethaf, a bydd hyn yn wir ar gyfer y dyfodol. Yng nghyd-destun arwain chwaraeon, diffinnir cymuned fel: • Darparwr addysg • Swigen gymdeithasol • Amgylchedd y cartref • Amgylchedd digidol/cyfryngau cymdeithasol • Cymuned leol y dysgwr (e.e. mewn clybiau chwaraeon, clybiau ieuenctid ac ati) Pan ofynnir i ddysgwr wneud gweithgaredd yn ei gymuned, gellir gwneud hynny ar gyfer unrhyw un o'r uchod.
Dangos arweiniad	5 awr o sesiynau arwain chwaraeon fel rhan o Uned 4 yn eu cymuned. Mae'n rhaid gwneud hyn mewn dau wahanol leoliad cymunedol o leiaf (gweler Uned 4 am arweiniad)
Y cyfrifoldeb o arwain sesiynau diogel fel Arweinydd Chwaraeon	Yn ystod yr hyfforddiant, mae'n rhaid i Arweinydd Chwaraeon Lefel 2 gael ei gefnogi a'i arwain bob amser gan ei diwtor/asesydd neu gan y person sy'n gyfrifol am y sefydliad y mae'n arwain ynddo. Bydd angen i'r person cyfrifol gynghori'r dysgwr ar asesu risg ac ar yr ymyriadau y mae angen eu rhoi ar waith yn unol â chanllawiau'r sefydliad ar ddiogelwch a diogelu. Ar ôl cymhwyso, bydd yr Arweinydd Chwaraeon yn gallu arwain gyda goruchwyliaeth anuniongyrchol, gyda chyfrifoldeb am sicrhau bod sesiwn yn cael ei chynnal yn ddiogel.
Heriau Cefnogi'r Dysgwr	Nod yr heriau hyn yw helpu'r Arweinydd Chwaraeon i gynnal sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon saff a chynhwysol. Byddant yn helpu'r dysgwr i adnabod y sgiliau sy'n cael eu datblygu ac yn ei arwain i'w rhoi ar waith yn effeithiol mewn amgylchedd sy'n newid o hyd. Mae'r rhain yn adnoddau sy'n wynebu'r dysgwr ac mae modd cael mynediad atynt fel rhan o'r gwaith dysgu o gartref neu'r sesiynau wyneb yn wyneb sydd ar gael wrth dalu'r ffioedd cofrestru. Dyma'r chwe her i'ch helpu gyda'r cymhwyster hwn: 1) Her Gwerthfawrogi Dysgu – Ymwneud â dysgu a'ch cymuned 2) Her Sgiliau ar gyfer Datblygu – Y sgiliau personol y mae angen i chi eu datblygu 3) Her Credu Ynoch Chi eich Hun – Meithrin hyder i lwyddo 4) Her Diogelwch yn Gyntaf – Arwain gweithgareddau'n ddiogel 5) Her Addasu Gweithgareddau – Datblygu gweithgareddau ar gyfer amgylchedd sy'n newid 6) Her Arwain Rhithiol – Defnyddio technoleg i arwain gweithgareddau Yn adnoddau'r tiwtor ac yng Nghofnodion Tystiolaeth y Dysgwr, cyfeirir at yr heriau hyn fel 'Cyfleoedd Cymell'

© SLQ 2021

Gwybodaeth am y cymhwyster

Amcan:
Mae CSL2 yn gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae'n galluogi dysgwyr llwyddiannus i arwain gweithgarwch corfforol/chwaraeon difyr a phwrpasol o dan oruchwyliaeth anuniongyrchol.

Isafswm oed ar ddyddiad dechrau'r cwrs	13 oed
Rhagofynion	Dim
Lefel goruchwyliaeth yn ystod y cwrs	Goruchwyliaeth uniongyrchol
Lefel goruchwyliaeth ar ôl cymhwyso	Goruchwyliaeth uniongyrchol ar gyfer Arweinwyr Chwaraeon 13-15 oed Goruchwyliaeth anuniongyrchol ar gyfer Arweinwyr Chwaraeon 16+/yn troi'n 16 oed
Cyfanswm Oriau Cymhwyso (TQT)	48 awr
Oriau gyda thiwtor (GL)	24 awr
Dangos arweiniad	5 awr (gweler yr adran isod ar ddangos arweiniad i gael rhagor o wybodaeth am hyn)
Credydau	5 credyd
Rhif y cymhwyster (cod)	601/8584/3

Oriau Dangos Arweiniad – Adolygwyd ar gyfer 2021/22

Uned	Oriau arwain gofynnol ar gyfer cyrsiau sy'n cychwyn o 1 Medi 2021 ymlaen
Uned 4 – Arwain sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon yn eich cymuned	5 awr o arweiniad mewn o leiaf ddau leoliad gwahanol

Asesu
Ar gyfer y cymhwyster hwn, mae Arweinwyr Chwaraeon SLQ wedi darparu Cofnod Tystiolaeth y Dysgwr, sy'n hawdd iawn ei ddefnyddio. Mae'r Cofnod yn orfodol ac yn defnyddio'r asesiadau hyn:

- Arsylwi ymarferol – gyda chanllawiau ychwanegol ar sut i ddefnyddio fideos ac apiau cynadledda i gefnogi penderfyniadau asesu
- Asesu tasgau ysgrifenedig (darperir taflenni gwaith ar gyfer y dasg yng Nghofnod Tystiolaeth y Dysgwr)
- Cynlluniau a gwerthusiadau i'w cwblhau yn ystod y cwrs

* Mae modd gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn gallu cwblhau'r Cofnod

Adnoddau – Adolygwyd ar gyfer 2021/22
I'ch helpu i gyflwyno ac asesu'r cymhwyster hwn, bydd Arweinwyr Chwaraeon SLQ yn rhoi mynediad i chi at y dogfennau canlynol yn electronig:

- Manyleb y cymhwyster hwn – **wedi'i hadolygu ar gyfer 2021/22**
- Cofnod Tystiolaeth y Dysgwr – **wedi'i adolygu ar gyfer 2021/22**
- Heriau Cefnogi'r Dysgwr – er mwyn helpu dysgwyr i addasu i anghenion diogelwch eu cymuned, sy'n newid yn gyson
- Sleidiau cyflwyniad Adnoddau'r Tiwtor ar gyfer pob uned – **wedi'u hadolygu ar gyfer 2021/22**
- Rhestr Wirio Adolygu Sicrwydd Ansawdd
- Ffurflenni Dilysu Mewnol – **wedi'u hadolygu ar gyfer 2021/22**
- Cofnod Asesu Mewnol – **wedi'i adolygu ar gyfer 2021/22**

© SLQ 2021

Gofynion hyfforddi ar gyfer eich Canolfan
Ar gyfer Canolfannau sy'n bwriadu cynnig cymwysterau Arweinwyr Chwaraeon SLQ, mae'n ofynnol bod tiwtoriaid yn derbyn hyfforddiant. Mae'n rhaid i o leiaf un person o bob Canolfan ddilyn yr Hyfforddiant Tiwtoriaid. Bydd hwn yn rhoi statws 'Asesydd/Tiwtor Hyfforddedig', sy'n para dwy flynedd.

Mae'r e-hyfforddiant ar gyfer Rheolwyr Cyrsiau Canolfannau a'r e-hyfforddiant Dilysu Mewnol hefyd yn orfodol i'r rheini sy'n cyflawni'r swyddogaethau mewn Canolfan. Ewch i LEAP i gwblhau'r hyfforddiant.

Polisïau
Wrth gytuno i'r Telerau ac Amodau, mae'r holl Ganolfannau sy'n cynnig y Cymwysterau yn cydnabod bod y polisïau canlynol yn eu lle a'u bod ar gael i'r dysgwyr ac i'r tiwtoriaid yn ôl yr angen:

- Polisi camymddwyn a chamweinyddu
- Polisi apeliadau a chwynion
- Polisi cyfle cyfartal

Drwy ein hadolygiadau Sicrhau Ansawdd, bydd modd gweld ydy'r rhain ar gael ac a oes rhywun wedi cael mynediad atynt yn y 12 mis diwethaf. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am hyn, cysylltwch â'ch Uwch Swyddog Sicrhau Ansawdd neu anfonwch e-bost at qa@sportsleaders.org.

Cynnydd
Bydd y cymhwyster hwn yn eich galluogi i symud ymlaen i'r lefel nesaf ym maes Arwain Chwaraeon, at y Cymhwyster Lefel 3 mewn Arwain Chwaraeon.

Pris
Yma gallwch weld prisiau holl gymwysterau a dyfarniadau Arweinwyr Chwaraeon SLQ , yn ogystal ag adnoddau ychwanegol.

© SLQ 2021

Manyleb
Cymhwyster Lefel 2 mewn Arwain Chwaraeon yn y Gymuned (CSL2)

Beth sydd wedi newid ar gyfer 2021-22?

Trosolwg o'r Uned

- Gostwng nifer yr oriau o ddangos arweiniad o 10 i 5.
- Rhaid i'r 5 awr honno ddigwydd mewn o leiaf ddau leoliad (e.e. yn yr ysgol i gyd-ddisgyblion, mewn clwb allgyrsiol, mewn clwb chwaraeon). Rhaid cael o leiaf 1 awr ym mhob lleoliad (felly gallai dysgwr wneud 4 awr yn yr ysgol ac 1 awr mewn clwb chwaraeon).

Uned 1

Yn Uned 1, nid oes unrhyw newidiadau i'r Meini Prawf Asesu nac i'r Tasgau sydd angen eu cwblhau.

Uned 2

Yn Uned 2, erbyn hyn mae'n rhaid i ddysgwyr arwain isafswm o 2 sesiwn gweithgarwch corfforol/ chwaraeon sy'n para 20 munud yr un, yn hytrach na 2 sesiwn sy'n para 15 munud. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r dysgwr arwain sesiwn gyfan, gan ystyried yr amser sydd ei angen i arwain gweithgaredd cynhesu'r corff, y prif weithgaredd, a'r gweithgaredd clo neu oeri'r corff.

Uned 3

Yn Uned 3, nid oes unrhyw newidiadau i'r Meini Prawf Asesu nac i'r Tasgau sydd angen eu cwblhau.

Uned 4

- Yn Uned 4, mae nifer yr oriau o ddangos arweiniad wedi newid i 5. Roedd yn 10 awr mewn manylebau blaenorol.
- Mae'n rhaid i'r 5 awr gynnwys sesiwn wedi'i harwain mewn o leiaf ddau leoliad gwahanol.
- Erbyn hyn, mae angen datganiad tyst ar gyfer un sesiwn sy'n cael ei harwain gan y dysgwr fel rhan o'r 5 awr.

© SLQ 2021

SLQ Cymhwyster Lefel 2 mewn
Arwain Chwaraeon yn y Gymuned (CSL2)
Manyleb ar gyfer y 1af o Fedi 2021
Trosolwg o'r Uned

Beth sydd wedi newid?
Gostwng nifer yr oriau o ddangos arweiniad o 10 i 5. Rhaid i'r 5 awr honno ddigwydd mewn o leiaf ddau leoliad (e.e. yn yr ysgol i gyd-ddisgyblion, mewn clwb allgyrsiol, mewn clwb chwaraeon). Rhaid cael o leiaf 1 awr ym mhob lleoliad (felly gallai dysgwr wneud 4 awr yn yr ysgol ac 1 awr mewn clwb chwaraeon).

Unedau Mae pob uned yn orfodol	**Oriau Dysgu dan Arweiniad (Amser gyda thiwtor)**	**Astudio dan Gyfarwyddyd**	**Cyfanswm Oriau Cymhwyso (TQT)**
Uned 1 – Datblygu sgiliau arwain	3	3	6
Uned 2 – Cynllunio, arwain a gwerthuso sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon	10	5	15
Unit 3 – Helpu i gynllunio ac arwain digwyddiad gweithgarwch corfforol/chwaraeon	10	8	18
Uned 4 – Arwain sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon yn eich cymuned	1	8*	11
	24	**24**	**48** **5 chredyd**

*Yn cynnwys 5 awr o ddangos arweiniad i'w gwblhau yn Uned 4. Mae'n rhaid i'r 5 awr o ddangos arweiniad mewn sesiwn gweithgarwch corfforol/chwaraeon gynnwys sesiynau mewn o leiaf ddau leoliad gwahanol (gweler Uned 4 i gael arweiniad)

Nodyn: Mae angen i'r dysgwr gael ei asesu ar gyfer pob un o'r meini prawf asesu yn Unedau 1 a 2, a phasio pob un ohonynt hefyd, cyn arwain unrhyw un o'r sesiynau arwain 5 awr sy'n angenrheidiol ar gyfer yr uned

© SLQ 2021

SLQ Cymhwyster Lefel 2 SLQ mewn Arwain Chwaraeon yn y Gymuned (CSL2)
Manyleb ar gyfer y 1af o Fedi 2021
Canllawiau ar Unedau a'r Meini Prawf Asesu

Beth sydd wedi newid?
Yn Uned 1, nid oes unrhyw newidiadau i'r Meini Prawf Asesu nac i'r Tasgau sydd angen eu cwblhau.

Uned 1 – Datblygu sgiliau arwain		
Meini Prawf Asesu	Beth sydd angen ei wneud fan leiaf	Beth sydd angen ei gwblhau
Deilliant Dysgu 1 – Deall y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen er mwyn arwain yn effeithiol		
1.1 Disgrifio'r sgiliau y bydd angen i arweinydd effeithiol eu cael	Disgrifio'r pum sgìl (Cyfathrebu, Hunan-gred, Gwaith tîm, Hunanreolaeth, Datrys problemau) sy'n angenrheidiol er mwyn bod yn arweinydd effeithiol, ac egluro pam	**Tasg 1.1 – Ymddygiadau a sgiliau arwain** Cwblhau'r daflen waith ar gyfer y dasg
1.2 Egluro pam y bydd y sgiliau a nodwyd yn angenrheidiol er mwyn arwain yn effeithiol ac yn llwyddiannus		
1.3 Disgrifio'r effaith y gall ymddygiadau ei chael ar y gallu i arwain yn effeithiol	Disgrifio'r effaith y gall ymddygiadau ei chael ar bob un o'r pum sgìl (dau ymddygiad i bob sgìl)	
Deilliant Dysgu 2 – Deall pwysigrwydd ymddygiadau a sgiliau arwain mewn amrywiol sefyllfaoedd		
2.1 Egluro'r effaith gadarnhaol y gallai'r sgiliau a'r ymddygiadau penodol ei chael ar gyflogadwyedd a llwyddiant mewn amgylchedd gwaith	Egluro'r effaith gadarnhaol y gallai'r pum sgìl ei chael ar gyflogadwyedd a llwyddiant mewn amgylchedd gwaith	**Tasg 1.2 – Defnyddio ymddygiadau a sgiliau arwain mewn amgylcheddau eraill** Cwblhau'r daflen waith ar gyfer y dasg
Deilliant Dysgu 3 – Gallu rheoli'r dasg o ddatblygu eich sgiliau arwain eich hun		
3.1 Archwilio eich sgiliau arwain personol	Archwilio a chreu cynllun gweithredu i ddatblygu eich sgiliau arwain	**Tasg 1.3 – Ystyried y sgiliau arwain rydych chi wedi'u defnyddio** Cwblhau'r daflen waith ar gyfer y dasg
3.2 Creu cynllun gweithredu ar gyfer datblygu sgiliau arwain		
3.3 Ystyried datblygiad eich sgiliau arwain personol wrth edrych ar y cynllun gweithredu		
Deilliant Dysgu 4 – Gallu ysgwyddo swyddogaethau a chyfrifoldebau Arweinydd Chwaraeon		
4.1 Bod yn swyddog	Ysgwyddo rôl swyddog penodol am 10 munud fan leiaf – (h.y. Canolwr/Dyfarnwr, Swyddog Diogelwch, Sgoriwr, Amserwr, Hyfforddwr, Rheolwr/Trefnydd)	**Tasg 2.1 – Cynllunio, arwain a gwerthuso sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon** Ffurflen Arsylwi Ymarferol

© SLQ 2021

Beth sydd wedi newid?
Yn Uned 2, erbyn hyn mae'n rhaid i ddysgwyr arwain isafswm o 2 sesiwn gweithgarwch corfforol/chwaraeon sy'n para 20 munud yr un, yn hytrach na 2 sesiwn sy'n para 15 munud. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r dysgwr arwain sesiwn gyfan, gan ystyried yr amser sydd ei angen i arwain gweithgaredd cynhesu'r corff, y prif weithgaredd, a'r gweithgaredd clo neu oeri'r corff.

<table>
<tr><th colspan="3">Uned 2 – Cynllunio, arwain a gwerthuso sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon</th></tr>
<tr><th>Meini Prawf Asesu</th><th>Beth sydd angen ei wneud fan leiaf</th><th>Beth sydd angen ei gwblhau</th></tr>
<tr><td colspan="3">Deilliant Dysgu 1 – Gallu cynllunio sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon cynhwysol a diogel sydd â strwythur iddynt</td></tr>
<tr><td>1.1 Cynllunio sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon</td><td>P Cynllunio isafswm o ddwy sesiwn gweithgarwch corfforol/chwaraeon. Rhaid i bob sesiwn gael pwrpas gwahanol, a rhaid dewis o'r rhestr isod:
Datblygu sgiliau
Pwyslais ar ffitrwydd
SAQ/aml-sgiliau
Gemau meysydd chwarae
Gemau parasiwt
Diwrnod chwaraeon/mini-athletau
Sesiwn blasu
Chwaraeon anabledd
Gweithgareddau adeiladu tîm</td><td rowspan="2">Tasg 2.1 – Cynllunio, arwain a gwerthuso sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon
Cwblhau cynlluniau ar gyfer dwy sesiwn</td></tr>
<tr><td>1.2 Gwybod sut mae gwneud sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon yn gynhwysol i gyfranwyr</td><td>Nodi o leiaf ddwy ffordd o wneud y sesiwn yn gynhwysol i gyfranwyr gyda gwahanol anghenion</td></tr>
<tr><td colspan="3">Deilliant Dysgu 2 – Gallu arwain sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon cynhwysol a diogel sydd â strwythur iddynt</td></tr>
<tr><td rowspan="2">2.1 Defnyddio sgiliau cyfathrebu effeithiol wrth arwain sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon</td><td>Mynd ati'n effeithiol i ddefnyddio o leiaf dri dull cyfathrebu gwahanol sy'n defnyddio geiriau, ac o leiaf dri dull cyfathrebu di-eiriau</td><td rowspan="4">Tasg 2.1 – Cynllunio, arwain a gwerthuso sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon
Ffurflen Arsylwi Ymarferol</td></tr>
<tr><td>Dangos y gallu i wrando'n frwd ar o leiaf un achlysur</td></tr>
<tr><td>2.2 Defnyddio dulliau cymell effeithiol wrth arwain sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon</td><td>Defnyddio o leiaf dri dull effeithiol o gymell</td></tr>
<tr><td>2.3 Addasu'r dull o arwain sesiwn er mwyn sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn cael ei gynnwys</td><td>Ar o leiaf ddau achlysur, addasu'r dull o arwain sesiwn er mwyn sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn cael ei gynnwys</td></tr>
</table>

© SLQ 2021

2.4 Defnyddio rheolau sylfaenol fel rhan o sesiwn gweithgarwch corfforol/chwaraeon	Gosod a gorfodi o leiaf dair rheol sylfaenol	
2.5 Rhoi adborth i'r cyfranwyr mewn sesiwn gweithgarwch corfforol/chwaraeon	Rhoi adborth i'r cyfranwyr fel rhan o sesiwn gweithgarwch corfforol/chwaraeon er mwyn amlinellu: • Dau beth y mae'r cyfranwyr wedi'i wneud yn dda • Un peth y gellir ei wella	
2.6 Cwblhau asesiad risg ar gyfer sesiwn gweithgarwch corfforol/chwaraeon	Cwblhau asesiad risg ar gyfer o leiaf un sesiwn gweithgarwch corfforol/chwaraeon	**Tasg 2.2 – Cwblhau asesiad risg ar gyfer sesiwn gweithgarwch corfforol/chwaraeon** Cwblhau'r asesiad risg ar gyfer un sesiwn sydd wedi'i threfnu
2.7 Arwain sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon	Arwain o leiaf ddwy sesiwn gweithgarwch corfforol/chwaraeon sy'n para 20 munud yr un. Rhaid i'r ddwy sesiwn gael pwrpas gwahanol, a rhaid dewis o'r rhestr uchod	**Tasg 2.1 – Cynllunio, arwain a gwerthuso sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon** Ffurflen Arsylwi Ymarferol
Deilliant Dysgu 3 – Gallu cynllunio sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon		
3.1 Gwerthuso sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon	Gwerthuso'r sesiynau a gyflwynir gan gynnwys: • Elfennau o'r sesiwn oedd wedi mynd yn dda • Elfennau o'r sesiwn oedd angen gwella • Egluro sut bydd gwerthuso'n helpu i wella sesiynau yn y dyfodol	**Tasg 2.1 – Cynllunio, arwain a gwerthuso sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon** Cwblhau adrannau gwerthuso cynlluniau sesiwn ar gyfer o leiaf ddwy sesiwn wahanol

© SLQ 2021

Beth sydd wedi newid?
Yn Uned 3, nid oes unrhyw newidiadau i'r Meini Prawf Asesu nac i'r Tasgau sydd angen eu cwblhau

Uned 3 – Helpu i gynllunio ac arwain digwyddiad gweithgarwch corfforol/chwaraeon		
Meini Prawf Asesu	Beth sydd angen ei wneud fan leiaf	Beth sydd angen ei gwblhau
Deilliant Dysgu 1 – Deall y gwahanol fathau o ddigwyddiadau gweithgarwch corfforol/chwaraeon		
1.1 Disgrifio gwahanol fathau o ddigwyddiadau gweithgarwch corfforol/chwaraeon	Disgrifio o leiaf bum gwahanol fath o ddigwyddiadau gweithgarwch corfforol/chwaraeon Dylai'r disgrifiad gynnwys: • Prif nodweddion • Prif ddefnydd • Manteision ac anfanteision • Enghreifftiau enwog	**Tasg 3.1 – Mathau o ddigwyddiadau gweithgarwch corfforol/chwaraeon** Cwblhau'r daflen waith ar gyfer y dasg
Deilliant Dysgu 2 – Gallu helpu i gynllunio digwyddiad gweithgarwch corfforol/chwaraeon		
2.1 Cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio digwyddiad gweithgarwch corfforol/chwaraeon	Gweithio fel rhan o grŵp i gynllunio o leiaf un digwyddiad gweithgarwch corfforol/chwaraeon	**Tasg 3.2 – Cynllunio, arwain a gwerthuso digwyddiad gweithgarwch corfforol/chwaraeon** Cwblhau'r templed cynllunio digwyddiad ar gyfer un digwyddiad
Deilliant Dysgu 3 – Gallu helpu i arwain digwyddiad gweithgarwch corfforol/chwaraeon		
3.1 Cymryd rhan yn y gwaith o arwain gweithgarwch corfforol/chwaraeon	Cymryd rhan yn y gwaith o arwain o leiaf un digwyddiad gweithgarwch corfforol/chwaraeon	**Tasg 3.2 – Cynllunio, arwain a gwerthuso digwyddiad gweithgarwch corfforol/chwaraeon** Ffurflen Arsylwi Ymarferol
Deilliant Dysgu 4 – Gallu gwerthuso digwyddiad gweithgarwch corfforol/chwaraeon		
4.1 Dewis a defnyddio dulliau a theclynnau priodol i werthuso llwyddiant digwyddiad gweithgarwch corfforol/chwaraeon	Gwerthuso o leiaf un digwyddiad gweithgarwch corfforol/chwaraeon	**Tasg 3.2 – Cynllunio, arwain a gwerthuso digwyddiad gweithgarwch corfforol/chwaraeon** Cwblhau adran werthuso'r templed cynllunio digwyddiad ar gyfer un digwyddiad

© SLQ 2021

Beth sydd wedi newid?
Yn Uned 4, mae nifer yr oriau o ddangos arweiniad wedi newid i 5. Roedd yn 10 awr mewn manylebau blaenorol.
Mae'n rhaid i'r 5 awr gynnwys sesiwn wedi'i harwain mewn o leiaf ddau leoliad gwahanol.
Erbyn hyn, mae angen datganiad tyst ar gyfer un sesiwn sy'n cael ei harwain gan y dysgwr fel rhan o'r 5 awr.

Uned 4 – Arwain sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon yn eich cymuned		
Meini Prawf Asesu	Beth sydd angen ei wneud fan leiaf	Beth sydd angen ei gwblhau
Deilliant Dysgu 1 – Gallu arwain sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon yn eich cymuned		
1.1 Nodi amrywiaeth o gyfleoedd arwain sydd ar gael yn y ganolfan	Nodi isafswm o bedwar cyfle i arwain yn y ganolfan a phedwar yn eich cymuned leol	**Tasg 4.1 – Cyfleoedd i arwain sy'n gysylltiedig â'ch canolfan ac yn eich cymuned** Cwblhau'r daflen waith ar gyfer y dasg
1.2 Nodi amrywiaeth o gyfleoedd arwain sydd ar gael yn y gymuned leol		
1.3 Disgrifio sut y bydd ymddygiadau a sgiliau arwain penodol yn cael eu defnyddio i arwain yn llwyddiannus yn yr amgylchedd dan sylw	Disgrifio beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio pob un o'r pum sgìl er mwyn arwain yn llwyddiannus yn eich cymuned	
1.4 Arwain sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon yn y gymuned	Arwain o leiaf 5 awr* o sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon yn eich cymuned. Mae'n rhaid i'r 5 awr gynnwys sesiynau gweithgarwch corfforol/chwaraeon sy'n cael eu harwain mewn dau leoliad gwahanol. Gallai'r rhain gynnwys: • I gyfoedion yn y Ganolfan/yn yr ysgol yn ystod amser cwricwlwm • Mewn lleoliad allgyrsiol • Mewn clwb chwaraeon • Mewn clwb ieuenctid • Neu mewn unrhyw leoliad cymunedol arall lle mae oedolyn cyfrifol yn goruchwylio	**Tasg 4.2 – Cofnod Arwain** Cwblhau'r Cofnod Arwain a chael o leiaf un Datganiad Tyst gan unigolyn cyfrifol, cyfrannwr neu rywun sy'n gwylio

© SLQ 2021